

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ward Cas-gwent - Ysbyty Cymunedol Cas-gwent

Dyddiad y gweithgarwch: 17 Mai 2021

Dyddiad cyhoeddi: 02 Gorffennaf 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliwyd gwiriad ansawdd o bell gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o Ward Cas-gwent Ysbyty Cymunedol Cas-gwent fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Cas-gwent yn ward cam-i-lawr gymunedol â 34 o welyau sy'n darparu cymorth meddygol cyffredinol, adsefydlu a pharhaus i'r cleifion cyn iddynt gael eu rhyddhau er mwyn mynd adref neu i ofal preswyl.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward a'r uwch-nyrs ar 17 Mai 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am y gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Yr asesiadau risg ac archwiliadau amgylcheddol a rheoli heintiau diweddaraf
- Polisiâu/gweithdrefnau diogelwch tân, gan gynnwys asesiad risg diogelwch tân
- Polisiâu a gweithdrefnau COVID-19

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym y newidiwyd y ddwy ward yn Ysbyty Cas-gwent yn un ward ar ddechrau'r pandemig. Roedd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith ar gyfer y staff a'r cleifion. Roedd ystafell i berthnasau yn cael ei defnyddio fel ystafell staff ac mae cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn yr ystafell ddydd i atal cael gormod o bobl yn ardaloedd y staff. Esboniodd rheolwr y ward fod y staff wedi addasu'n gyflym i'r newidiadau amgylcheddol.

Dywedwyd wrthym fod y mesurau i ddiogelu preifatrwydd ac urddas yn cynnwys defnyddio cilfannau a thoiledau un rhyw ar gyfer y cleifion. Roedd arwyddion dim mynediad hefyd ar gael i'w defnyddio pan oedd gofal personol yn cael ei roi.

Nododd rheolwr y ward mai'r risg fwyaf i'r cleifion oedd y risg o gwmpo, oherwydd oed y grŵp cleifion. Dywedwyd wrthym fod dwy gilfan ar y ward wedi'u gosod yn agos at yr orsaf nrysio ar gyfer y cleifion y nodwyd eu bod yn risg uchel. Yn ogystal, mae gan yr holl gleifion gloch alw i ofyn am gymorth y staff.

Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer cleifion pan gânt eu derbyn i'r ysbyty, a chaiff y rhain eu gwirio'n wythnosol. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn cadarnhau bod archwiliadau ar gwympiadau a briwiau pwyso a niwed i feinweoedd yn cael eu cwblhau. Yn ystod trafodaethau, dywedwyd wrthym y byddai unrhyw glaf â chlefyd heintus yn cael ei reoli yn unol â pholisiâu a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau cyffredinol y bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym fod unrhyw wersi, camau gweithredu neu welliannau yn cael eu rhannu â'r staff ar unwaith.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio'n dda gyda staff y ward, y cleifion a'u teuluoedd. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac arferion. Roedd yr arferion a ddefnyddir yn yr ysbyty yn seiliedig ar arferion dyddiol, a fyddai'n helpu i gefnogi a pharatoi'r cleifion pan oeddent yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Dywedwyd wrthym fod y cyfarpar ar y ward yn cael ei storio'n gywir a bod hyn yn galluogi'r cleifion i symud o gwmpas y ward yn ddiogel. Mae gan yr holl gleifion eu loceri eu hunain i storio eu meddyginiaeth yn ddiogel. Mae hyn yn galluogi'r cleifion i gael eu meddyginiaeth yn amserol.

Dywedwyd wrthym, oherwydd y cyfyngiadau symud, fod ymweliadau ond yn cael eu caniatáu ar gyfer cleifion gofal lliniarol a chleifion yr oedd eu hiechyd meddwl yn dirywio. Mae pob ymwelydd yn llenwi ffurflenni monitro ac olrhain, ac yn cyfarfod â'r cleifion yn yr ystafell gofal ddydd. Mae tymheredd yr ymwelwyr yn cael ei fesur a rhoddir cyfarpar diogelu personol (PPE) iddynt. Roedd ffôn symudol a dyfeisiau electronig ar gael ar y ward i'r holl gleifion er mwyn iddynt siarad â'u teuluoedd a'u ffrindiau neu gynnal galwad fideo.

Roedd y cleifion yn mynd ar deithiau rhithwir ar ddyfeisiau electronig o'r cartrefi preswyl roeddent yn cael eu rhyddhau iddynt. Roed y cleifion hefyd yn cael cyfle i gyfarfod â rhai o'r staff o'r cartrefi gofal fel rhan o'r daith rithwir. Dywedwyd wrthym fod y teithiau rhithwir wedi cael ymateb da gan y cleifion.

Roedd Caplan yn yr ysbyty ac roedd aelod o staff y ward hefyd yn Gaplan. Mae'r ddau yn rhoi cymorth i'r cleifion a'u teuluoedd.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Ffigurau cyfraddau heintiau cyfredol ar gyfer unrhyw heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd a chopïau o adroddiadau ymchwilio lle y bu brigiadau o achosion o COVID-19 / trosglwyddiad nosocomaidd ar y ward.
- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol i COVID-19
- Data cyfredol ar gyfraddau heintiau

-
- Canlyniadau'r archwiliad hylendid dwylo diweddaraf
 - Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf
 - Amserlenni glanhau

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom y polisi rheoli heintiau a pholisïau a gweithdrefnau ategol eraill ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Dywedwyd wrthym fod y staff wedi bod yn gwneud mwy o lanhau ym mhob rhan o'r ysbyty; roedd gan y ward swyddog cadw tŷ dynodedig a oedd yn gyfrifol am lanhau'r ward rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Ar benwythnosau, staff y ward oedd yn gyfrifol am lanhau'r ward. Dywedwyd wrthym fod yr arweinydd atal a rheoli heintiau yn rhoi cymorth da i'r ward a bod cydweithio agos er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau.

Caiff archwiliadau glanhau eu cwblhau'n ddyddiol a'u gwirio gan y nyrs â chyfrifoldeb. Mae'r uwch-nyrs a'r nyrs atal a rheoli heintiau yn cwblhau archwiliadau glanhau llawn yn fisol. Mae archwiliadau hylendid dwylo yn cael eu cwblhau ddwywaith y mis ac yn amlach os bydd brigiad o haint. Gwnaethom edrych ar y ddogfennaeth monitro iechyd a gofal ar gyfer y 12 mis diwethaf a oedd yn cadarnhau bod yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal.

Dywedwyd wrthym fod materion rheoli heintiau yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd ansawdd a diogelwch cleifion misol, a bod rheolwyr ward ac uwch-nyrsys yn eu mynychu. Caiff unrhyw wersi a ddysgir neu gamau gweithredu o'r cyfarfodydd staff hyn eu rhannu â'r tîm.

Cawsom wybod bod manau cyffwrdd yn cael eu glanhau'n rheolaidd a bod arfer diogel o ran hylendid dwylo a gwiriadau rheolaidd o gydymffurfiaeth y staff â PPE ar waith. Yn ogystal, dywedodd rheolwr y ward wrthym fod hapwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal gan y rheolwyr i sicrhau cydymffurfiaeth. Cawsom wybod hefyd bod posterï cam wrth gam ar gael ar y ward, er mwyn atgoffa'r staff am y math o PPE y dylent ei wisgo. Roedd posterï a thafleuni hefyd ar gael i'r ymwelwyr er mwyn iddynt wybod pa PPE yr oedd angen iddynt ei ddefnyddio wrth ymweld â'r ward.

Cawsom wybod bod byrddau gwybodaeth a ffolderi yn cynnwys yr holl bolisïau a gweithdrefnau cyfredol yn ymwneud â COVID-19 yn cael eu cadw yn ystafelloedd y staff fel y gallent gyfeirio atynt yn hawdd. Byddai rheolwr y ward yn sicrhau bod y ffolder hwn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

Er mwyn cadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel, roedd y cleifion yn cael profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos ac mae tymheredd pob claf yn cael ei gymryd yn ddyddiol. Mae'r cleifion sydd newydd gael eu derbyn yn hunanynysu nes bod dau brawf COVID-19 negatiff

wedi cael eu cadarnhau. Caiff unrhyw gleifion a gaiff ganlyniad prawf positif eu trosglwyddo i ward COVID-19 ddynodedig o fewn y bwrdd iechyd ar unwaith. Bydd y cleifion ond yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty ar ôl i ddau brawf COVID-19 negatif gael eu cadarnhau.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Canlyniadau'r adolygiad o gwympiadau diweddaraf
- Canlyniadau'r archwiliad briwiau pwyso a niwed i feinweoedd diweddaraf
- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion o hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff
- Y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol
- Aseidiadau risg a wnaed mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch y staff

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod adnoddau staff yn cael eu cynllunio a'u hadolygu bob dydd, er mwyn helpu i sicrhau bod digon o aelodau o'r staff yn gweithio sifftiau i ddiwallu anghenion gofal y cleifion. Roedd y banc adnoddau neu staff asiantaeth yn cael eu defnyddio ar gyfer darpariaeth ychwanegol neu os oedd prinder staff.

Dyrennir aelod profiadol o'r tîm i aelodau newydd o staff fel pwynt cyswllt ar gyfer cymorth ac arweiniad.

Esboniodd rheolwr y ward wrthym fod cymorth lles wedi cael ei gynnig i staff mewn amrywiaeth o ffyrdd. Roedd yr uwch-reolwyr ar gael er mwyn i'r staff drafod materion a chael cymorth ganddynt. Nodwyd ei bod yn hawdd mynd at yr uwch-reolwyr, eu bod yn gefnogol ac yn weladwy ar y ward.

Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau llesiant a rhifau cyswllt wedi'u harddangos yn ardaloedd y staff ac y gellir atgyfeirio'r staff at wasanaethau iechyd galwedigaethol neu y gallant gysylltu â'r gwasanaethau hynny eu hunain os bydd angen. Dywedwyd wrthym fod y staff ar y ward yn cydweithio ac yn gwneud ymdrech wirioneddol i weithio fel tîm er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol i'r cleifion. Roedd hyn yn golygu bod y perthnasau a'r ymwelwyr yn gwerthfawrogi staff y ward, ac roedd y staff wedi cael llythyrau yn dweud diolch a rhoddion gan y cleifion a'r teuluoedd.

Roedd yr uwch-nyrs a rheolwr y ward yn canmol eu tîm a dywedwyd eu bod yn falch iawn o'r ffordd y mae wedi gweithio ac addasu drwy gydol y pandemig.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod y lefelau cadw staff yn dda a bod y tîm sy'n rheoli'r ward wedi gweithio'n galed er mwyn sicrhau bod y staff yn teimlo fel rhan o dîm cynhwysol a chefnogol. Roedd rhai swyddi gwag oherwydd bod unigolion wedi ymddeol neu gael eu dyrchafu; dywedwyd wrthym fod y swyddi gwag hyn wedi cael eu hysbysebu.

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn nodi ffigurau cydymffurfiaeth o 87% ar gyfer adolygiadau datblygu arfarniad personol (PADR) y staff ar gyfer y 12 mis blaenorol. Gwelsom dystiolaeth bod lefelau cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant gorfodol cyffredinol i aelodau unigol o'r staff yn yr ysbyty yn fwy nag 80%.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.